# IWAN LAVIS
# RHONDDA PADDLERS

Mae Iwan yn hyfforddwr ifanc sy'n gwirfoddoli gyda chlwb Rhondda Paddlers; clwb canŵio, caiacio a phadlfyrddio. Mae'n chwarae Polo Canŵ ar gyfer Tîm Cyntaf Polo Canŵ Rhondda Rhinos ac mae wedi cynrychioli Cymru yn rhan o'r tîm dan 23 oed.

Mae Iwan yn teithio o Aberhonddu bob wythnos i wirfoddoli a hyfforddi timau polo canŵ iau ac ieuenctid y clwb. Yn ogystal â hyn, mae'n gwirfoddoli ar benwythnosau, gan deithio i hyfforddi a dyfarnu twrnameintiau i blant iau ac ieuenctid gan deithio mor bell â Bryste, Lerpwl, Hull a Belffast.

Mae Iwan yn esiampl ragorol i eraill. Roedd rhieni a phlant y clwb wedi cydnabod ei gyfraniad yn ystod noson wobrwyo ddiweddar. Ef yw'r cyntaf i wirfoddoli bob tro, gyda hyfforddwyr ifainc fel Iwan, mae dyfodol y clwb yn edrych yn addawol iawn!




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## TACHWEDD 2023